

Yn deilwng o gymeradwyaeth y Frenhines: Adfer Wentwood

Mae coedwig Wentwood, yr ardal fwyaf o goetir hynafol yng Nghymru, wedi'i hachredu dan fenter y Frenhines, sef Canopi'r Gymanwlad (QCC). Nod y fenter yw sefydlu rhwydwaith o brosiectau cadwraeth coedwigoedd cynaliadwy ar draws y Gymanwlad.



Mae lleoliad Wentwood ger dinas Casnewydd yn golygu ei fod yn goetir cymunedol pwysig sy'n cael ei fwynhau ar gyfer hamdden, yn ogystal â bod yn hafan i fywyd gwylt ac yn ffynhonnell pren sy'n cael ei reoli'n gynaliadwy.

Mae'r prosiect cydweithredol yn cynnwys y ddau brif dirfeddiannwr, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r *Woodland Trust*. Bydd y ddau barti yn gweithio gyda rhanddeiliaid a'r gymuned leol i archwilio cyfleoedd a fydd yn creu mwy o fanteision lles. Er enghraifft, hyrwyddo gweithgareddau hamdden, gwella mynediad, a defnyddio Wentwood fel man agored i wella iechyd a lles pobl.

Mae gan Wentwood hanes hir o blannu coed conwydd sy'n dyddio'n ôl i'r 1800au. Yr her nawr yw adfer Wentwood i gyflwr mwy naturiol, gan dynnu'r coniferau oddi yno'n raddol a'i droi'n ôl i goed llydanddail brodorol.

Meddai Diane McCrea, Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru:

"Rydym wrth ein bodd bod ein prosiect adfer coetir hynafol yn Wentwood wedi cael achrediad Canopi Cymanwlad y Frenhines. Mewn partneriaeth â'r Woodland Trust, mae hon yn enghraifft wych o'n dull cydweithredol o fynd ati i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy."

Meddai Natalie Buttriss, Cyfarwyddwr Cymru dros y *Woodland Trust*:

"Rydym yn hynod falch o fod yn warchodwyr rhan sylweddol o goedwig hynafol fwyaf Cymru, diolch i haelioni ein cefnogwyr. Ers i ni brynu'r safle, ein nod yw ei adfer yn raddol i'w ogoniant blaenorol gyda choed llydanddail ac i arddangos y manteision o wneud hyn. "Dyna pam rwy' mor falch ein bod ni'n gweithio gyda CNC ar raddfa dirlun i adfer Wentwood a bod y prosiect wedi'i achredu yn rhan o Ganopi Cymanwlad Y Frenhines. Gyda'n gilydd, gallwn gyflawni llawer iawn mwy na'r hyn y gallai'r un ohonom ei wneud ar ein pennau'n hunain."

Ar Drywydd Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy:

